

Canllaw i Ganlyniadau ac Apeliadau Haf 2020



1. Cyflwyniad	3
2. Diwrnod y Canlyniadau	4
i) Gweld gwybodaeth am ganlyniadau	4
iii) Esboniad o'r canlyniadau	5
3. Sut y cyfrifwyd graddau ar gyfer haf 2020.....	6
Cam 1: Graddau asesu canolfannau a threfn restrol.....	6
Cam 2: Safoni	7
4. Mae ysgol, coleg neu ddysgwr am wneud ymholiad am ganlyniad	8
i) Gweithdrefnau apeliadau mewnol ysgolion a cholegau	8
ii) Proses a therfynau amser apelio CBAC	8
Adolygiad cychwynnol	8
Y broses apeliadau	9
iii) Rhesymau dros yr apêl	10
iv) Cyflwyno cais am apêl a chydysyniad dysgwr.....	11
v) Gwybodaeth a thystiolaeth sy'n ofynnol i gefnogi apêl.....	11
vi) Ffioedd	12
5. Cyfresi arholiadau'r dyfodol	12
Atodiad 1: Esbonio Graddau	13
Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau.....	16
Atodiad 2: Ymgeiswyr preifat.....	17

1. Cyflwyniad

Mae cyfnod haf 2020 wedi bod yn arbennig o anodd i ysgolion, colegau a dysgwyr. Cafodd arholiadau ac asesiadau eraill eu canslo oherwydd effaith y pandemig Covid-19 ac arweiniodd hyn at newid yn y ffordd y cyfrifwyd ac y dyfarnwyd graddau.

Cyflawnwyd llawer iawn o waith gan athrawon, uwch arweinwyr, swyddogion arholiadau ac aelodau eraill o staff yn ystod y cyfnod heriol hwn. Gwnaed hyn i sicrhau bod dysgwyr yn gallu ennill y cymwysterau fydd yn eu galluogi i symud ymlaen i gam nesaf eu bywydau yn y byd addysg neu gyflogaeth.

Gan fod newidiadau wedi bod eleni, mae'r wybodaeth am y canlyniadau sydd ar gael i'r canolfannau a'r broses ar gyfer apelio canlyniadau yn wahanol i'r arfer. Lluniwyd y canllaw hwn er mwyn helpu i esbonio'r canlynol:

- Trefniadau diwrnod y canlyniadau
- Sut y cyfrifwyd graddau ac esboniad o'r graddau
- Y broses apeliadau.

Mae amrywiaeth fawr o wybodaeth ar gael i esbonio trefniadau haf 2020 yn ogystal â chynghor a chefnogaeth broffesiynol ar gyfer dysgwyr.

Sefydliad	Gwybodaeth bellach
CBAC	Gwybodaeth diwrnod y canlyniadau
CGC	Gwybodaeth diwrnod y canlyniadau
Cymwysterau Cymru	Gwybodaeth diwrnod y canlyniadau
UCAS	Cyngor i ddysgwyr am dderbyniadau prifysgol a choleg
Gyrfa Cymru 0800 0284844	Cyngor i ddysgwyr am ddilyniant a gyrfaoedd
Llywodraeth Cymru	Cyngor iechyd i leoliadau addysgiadol
The Confederation of School Trusts	Canllawiau ynghylch diogelu data a rhyddhau graddau asesu canolfannau
ASCL	Canllawiau i ganolfannau ar ddiwrnod y canlyniadau 2020
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	Canllawiau ar gael mynediad at raddau asesu canolfannau a threfn restrol

2. Diwrnod y Canlyniadau

Cymhwyster	Rhyddhau'n gyfyngedig i ganolfannau	Diwrnod cyhoeddi'r canlyniadau
UG a Safon Uwch	00:01 Dydd Mercher 12 Awst	08:00 Dydd Iau 13 Awst
Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol		
Project Estynedig		
Bagloriaeth Cymru – Tystysgrif Her Sgiliau (Uwch)		
Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio		
TGAU	00:01 Dydd Mercher 19 Awst	08:00 Dydd Iau 20 Awst
Lefel 1 a 2 Cymwysterau Cyffredinol Eraill: Lladin, Mathemateg Ychwanegol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau		
Lefel 1/2 Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol*		
Tystysgrifau Lefel Mynediad		
Iaith ar Waith		
Cymraeg Gwaith		
Llwybrau – Ieithoedd Tramor Modern		
Bagloriaeth Cymru – Tystysgrif Her Sgiliau (Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 Sylfaen a Chenedlaethol)		

- Cyhoeddir canlyniadau'r unedau Lefel 1/2 Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol ym mis Medi

i) Gweld gwybodaeth am ganlyniadau

Bydd arweiniad manwl ar sut i gael mynediad at ganlyniadau i'w weld ar ein Gwefan Ddiogel www.wjecservices.co.uk.

Cyfyngir mynediad i'r safle hwn i staff mewn ysgolion a cholegau, a dylid trafod â'ch Swyddog Arholiadau os cewch unrhyw broblemau o ran cael mynediad. Mae rhagor o wybodaeth am y safle hwn ar gael yma.

Rhyddheir canlyniadau i ganolfannau ar y ddealltwriaeth bod y ffeiliau canlyniadau a'u cynnwys yn aros yn gyfan gwbl gyfrinachol i bennaeth y ganolfan, staff y swyddfa arholiadau a'r staff addysgu uwch yn y ganolfan, y consortiwm neu'r Multi Academy Trusts. Rhaid i'r holl wybodaeth am y canlyniadau aros yn gwbl gyfrinachol tan amserau swyddogol rhyddhau'r canlyniadau.

ii) Rhyddhau Canlyniadau

Gellir cyhoeddi'r canlyniadau i ddysgwyr o 8 o'r gloch ar ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniadau (dydd Iau). Ni ddylent dderbyn canlyniadau, trwy e-bost, trwy'r post neu fel arall, cyn 8 o'r gloch.

Ni ddylid datgelu canlyniadau i unrhyw un arall gan gynnwys awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol yng Nghymru a'r cyfryngau tan ar ôl 9.30am ar y dydd Iau.

Cyhoeddir y manylion yn llawn, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau sy'n ymwneud â rhyddhau canlyniadau, yn nogfen y CGC [Rhyddhau Canlyniadau Mehefin 2020](#).

Dylai ysgolion a cholegau roi gwybod i bob dysgwr pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer derbyn y canlyniadau. Dylai'r dysgwyr hefyd gael gwybod gyda pha aelodau o staff yr ysgol neu'r coleg y dylent drafod unrhyw ymholiadau neu bryderon sydd ganddynt am unrhyw ganlyniadau. Efallai y bydd angen i drefniadau eleni fod yn wahanol i rai blynyddoedd blaenorol, a bydd angen i'r trefniadau hyn ystyried y cyngor diweddaraf gan y llywodraeth sy'n berthnasol i'ch ardal chi. Gweler adran 1 uchod am gysylltau â gwybodaeth ddefnyddiol am gyngor diweddaraf y llywodraeth o ran lleoliadau addysgiadol.

Cofiwch na all CBAC ddarparu na thrafod canlyniadau â dysgwyr, eu rhieni, neu warcheidwaid hyd yn oed os yw'r ysgol neu'r coleg ar gau. Rhaid trafod unrhyw fater yn ymwneud â chanlyniadau â staff yn yr ysgol neu'r coleg.

iii) [Esboniad o'r canlyniadau](#)

Defnyddir yr un setiau graddau â blynyddoedd blaenorol i ddyfarnu setiau graddau cyffredinol cymwysterau'r haf hwn.

Yn Atodiad 1 mae esboniad am setiau graddau pob math o gymhwyster.

3. Sut y cyfrifwyd graddau ar gyfer haf 2020

Yn dilyn cyhoeddiad y llywodraeth a'r rheoleiddiwr ar 17 Awst dyfarnwyd graddau haf 2020 fel a ganlyn

Math o gymhwyster	Gradd a ddyfarnwyd
CBAC Safon Uwch	Yr orau o'r canlynol: y radd wedi'i chyfrifo, y radd asesu canolfannau neu radd UG gyfatebol y dysgwr.
Eduqas Safon Uwch ac UG, CBAC UG, Bagloriaeth Cymru – Tystysgrif Her Sgiliau (Uwch), Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol.	Yr orau o radd wedi'i chyfrifo neu radd asesu canolfannau'r dysgwr.
CBAC TGAU, Eduqas TGAU, Bagloriaeth Cymru – Tystysgrif Her Sgiliau (CA4 ac Ôl-16 Sylfaen a Chenedlaethol), Lefel 1/2 Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol*, Lefel 1/2 Cymwysterau Cyffredinol Eraill (Lladin a Mathemateg Ychwanegol) a Lefel Mynediad	Yr orau o radd wedi'i chyfrifo neu radd asesu canolfannau'r dysgwr.
Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio, Llwybrau Mynediad, Llwybrau Ieithoedd, Iaith ar Waith, Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau	Bydd dysgwyr yn derbyn y radd asesu canolfannau

Ar gyfer ymgeiswyr y dyfarnwyd y radd wedi'i chyfrifo iddyn nhw, mae'r adran ganlynol yn rhoi manylion sut y cyflawnwyd y radd wedi'i chyfrifo.

Cam 1: Graddau asesu canolfannau a threfn restrol

Darparodd pob ysgol a choleg raddau asesu canolfannau i bob dysgwr ar gyfer pob pwnc ynghyd â threfn restrol o ddysgwyr ym mhob gradd ar gyfer pob pwnc.

Dyfarniad proffesiynol yw'r radd asesu canolfannau, sy'n seiliedig ar amrediad eang o dystiolaeth wrthrychol, o'r radd y byddai dysgwr yn fwyaf tebygol o fod wedi'i hennill pe byddai wedi sefyll yr arholiadau. Mae hyn yn wahanol i ragfynegi neu dargedu gradd, sy'n rhywbeth a ddefnyddir yn aml i gymell dysgwyr.

Derbyniodd yr ysgolion a'r colegau [ganllawiau](#) am y wybodaeth ychwanegol y dylid ei hystyried wrth ffurfio penderfyniadau asesu ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig ac/neu anabledau.

Gan fod angen sicrhau bod y graddau a'r drefn restrol mor fanwl gywir a theg ag y gallan nhw fod, llofnodwyd y graddau gan ddau aelod o staff cyn i bennaeth y ganolfan ddatgan bod y wybodaeth am raddau asesu canolfannau a threfn restrol y ganolfan yn

fanwl gywir ac yn cynrychioli dyfarniadau proffesiynol staff y ganolfan. Doedd y graddau a'r trefnau rhestrol a gyflwynwyd i CBAC gan y canolfannau ddim yn unig gyfrifoldeb unrhyw un athro/athrawes unigol.

Cam 2: Safoni

Ar gyfer ysgolion a cholegau yng Nghymru (ac eraill a gofrestrwyd am fanylebau CBAC), bu'n ofynnol i CBAC ddefnyddio'r gweithdrefnau safoni ystadegol a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru i gyfrifo graddau ar gyfer TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. Yn y gweithdrefnau hyn nodir y setiau data y mae'n rhaid eu defnyddio i safoni. Mae gwybodaeth bellach am y broses hon i'w gweld ar ein gwefan [CBAC](#) ac ar wefan [Cymwysterau Cymru](#).

Defnyddiwyd dulliau tebyg i'n modelau ar gyfer cymwysterau cyffredinol yng Nghymru neu Loegr ar gyfer ein cymwysterau eraill. Mae manylion y modelau hyn i'w gweld ar ein gwefannau CBAC ac Eduqas.

Edrychwyd ar y data canlynol wrth safoni graddau:

- canlyniadau'r ysgol neu'r coleg yn y blynyddoedd diwethaf
- cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr
- canlyniadau cenedlaethol blaenorol yn y pwnc.

Ystyriwyd dosraniad graddau'r ysgol neu'r coleg ar draws cyfresi arholiadau haf blaenorol yn y pwnc yn seiliedig ar ganlyniadau yn y blynyddoedd diwethaf. Edrychwyd yn ogystal ar y gwahaniaethau o ran cyrhaeddiad blaenorol rhwng dysgwyr ysgol neu goleg eleni ac mewn blynyddoedd blaenorol. O ran cymwysterau unedol, ystyriwyd hefyd y canlyniadau asesu wedi'u 'bancio' lle y bo'n briodol gwneud hynny.

Cafodd y data hyn eu cymharu yn erbyn y graddau asesu canolfannau a gwybodaeth am drefn restrol a gyflwynodd yr ysgolion a'r colegau i ni ac addaswyd y rhain os yw'n dangos bod graddau asesu canolfannau'n rhy hael neu'n rhy lym.

Datgelu gwybodaeth i ddysgwyr

Gall ysgolion a cholegau ddatgelu gwybodaeth i ddysgwyr, lle mae datgeliad gwybodaeth o'r fath yn gydnaws a'u gofynion diogelu data a gofynion cyfreithiol eraill.

Dim ond drwy gyflwyno cais ffurfiol am fynediad at ddata gan destun y data hynny y bydd CBAC yn rhyddhau unrhyw ddata personol, ac y gall ysgolion a cholegau wneud hynny. I gyflwyno cais am fynediad at ddata gan y testun i CBAC, gellir llenwi ein ffurflen Mynediad at Ddata Personol sydd i'w gweld ar ein [gwefan](#). Noder os gwelwch yn dda, gall gymryd hyd at 30 diwrnod i ddarparu'r wybodaeth ar gyfer cais o'r fath. Ni dderbynnir ceisiadau am apeliadau ar ôl 17 Medi hyd yn oed os na chyhoeddwyd ymateb i gais am fynediad at ddata gan destun y data hynny.

4. Mae ysgol, coleg neu ddysgwr am wneud ymholiad am ganlyniad

Gan fod y broses o ddyfarnu graddau wedi newid yr haf hwn, ni fydd y gwasanaethau ar ôl y canlyniadau safonol yn berthnasol. Yn hytrach, rydyn ni a'n rheoleiddwyr wedi cytuno ar broses apeliadau eithriadol. Mae hyn yn golygu felly, ar gyfer cyfres haf 2020, y bydd dogfen gyfredol y CGC '[Canllaw i broses apeliadau'r cyrff dyfarnu](#)' ond yn berthnasol i apeliadau yn erbyn penderfyniadau camymddwyn ac adolygiadau yn erbyn penderfyniadau gweinyddol eraill.

I apelio yn erbyn canlyniadau haf 2020, y prosesau a esbonnir yn nogfen y CGC '[Canllaw i brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu cyfres arholiadau Mehefin 2020](#)' sy'n berthnasol. Cyngorir eich bod yn darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r arweiniad yn y llyfryn hwn cyn cyflwyno unrhyw apêl.

i) Gweithdrefnau apeliadau mewnol ysgolion a cholegau

Rhaid i ysgolion a cholegau fod â threfniadau ar waith a fydd yn caniatáu i ddysgwyr gyflwyno cais iddyn nhw am wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'u canlyniadau. Rhaid i'r weithdrefn apeliadau mewnol ganiatáu apelio yn erbyn penderfyniad gan ysgol neu goleg i beidio â chyflwyno apêl ar ran dysgwr. Rhaid hysbysu dysgwyr am drefniadau apeliadau mewnol yr ysgol neu'r coleg.

ii) Proses a therfynau amser apelio CBAC

Dau gam sydd i broses apeliadau haf 2020, y cam cyntaf sef yr 'adolygiad cychwynnol' a'r ail gam sef 'adolygiad annibynnol'.

Adolygiad cychwynnol

Gellir cyflwyno ceisiadau am adolygiad cychwynnol o ddyddiad diwrnod cyhoeddi'r canlyniadau perthnasol. **Dydd Iau 17 Medi 2020** yw'r dyddiad olaf i dderbyn ceisiadau am adolygiad cychwynnol. Ni dderbynnir unrhyw geisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn.

Anelwn at gwblhau'r adolygiadau cychwynnol o fewn 42 diwrnod calendr i dderbyn y cais. Os bydd lleoedd yn y brifysgol dan sylw, dylai canolfannau gyflwyno ceisiadau cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau. Does dim gwasanaeth blaenoriaethol ar gyfer haf 2020 gan fod trefniadau ac amgylchiadau eithriadol ar waith. Dylai dysgwyr hysbysu eu canolfan cyn gynted â phosibl os ydyn nhw'n meddwl bod gwall wedi'i wneud wrth ddyfarnu eu gradd derfynol.

Rhaid i ysgolion a cholegau gyflwyno ceisiadau am adolygiad cychwynnol drwy ein [Gwefan Ddiogel](#). Bydd arweiniad pellach ar sut i gyflwyno cais am adolygiad cychwynnol i'w weld ar ein Gwefan Ddiogel cyn cyhoeddi'r canlyniadau.

Dylai ymgeiswyr preifat gyfeirio at Atodiad 2 a chysylltu ag apeliadau@cbac.co.uk am ffurflen gais, os yn gymwys. Dylid anfon unrhyw geisiadau dros e-bost at apeliadau@cbac.co.uk yn ddim hwyrach na 17 Medi 2020. Ni dderbynnir unrhyw ffurflenni cais a/neu geisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn.

Y broses apelïadau

1. Pan dderbynnir cais am adolygiad cychwynnol, byddwn ni'n cynnal gwiriad gweinyddol er mwyn sicrhau bod yr apêl yn:
 - bodloni'r meini prawf rhesymau dros yr apêl
 - cael ei chefnogi gan dystiolaeth ddigonol a phriodol
 - wedi'i hawdurdodi gan bennaeth y ganolfan.
2. Derbynnir yr apêl i'w hadolygu'n gychwynnol os yw'n bodloni'r meini prawf yn y pwyntiau bwled uchod. Hysbysir canolfan o'r rheswm (rhesymau) os na dderbynnir cais. Os na dderbynnir apêl gellir cyflwyno cais newydd sy'n bodloni'r gofynion yn y pwyntiau bwled uchod ar yr amod ei fod yn cyrraedd o fewn y terfyn amser.
3. Os caiff ei dderbyn, cynhelir adolygiad cychwynnol.
4. Hysbysir yr ysgol neu'r coleg gan CBAC a yw'r adolygiad cychwynnol wedi'i gadarnhau neu heb ei gadarnhau. Bydd y canlyniad yn cynnwys y rhesymau dros wneud y penderfyniad.
5. Os yw'r ysgol neu'r coleg o'r farn bod gwall o hyd ar ôl derbyn canlyniad yr adolygiad cychwynnol, gall gyflwyno cais drwy wefan ddiogel CBAC i gael adolygiad annibynnol o fewn 14 diwrnod calendr i ddyddiad canlyniad yr adolygiad cychwynnol.

Adolygiad Annibynnol

6. Bydd ceisiadau am adolygiad annibynnol yn cynnwys gwiriad gweinyddol i sicrhau bod yr apêl:
 - eisoes wedi'i hystyried yn ystod cyfnod yr adolygiad cychwynnol a'r canlyniad wedi'i gyhoeddi.
 - wedi'i hawdurdodi gan bennaeth y ganolfan
 - wedi'i chyflwyno o fewn y terfyn amser o 14 diwrnod calendr.
7. Bydd CBAC yn hysbysu'r ysgol neu'r coleg a yw'r adolygiad annibynnol wedi'i dderbyn neu heb ei dderbyn. Os caiff ei dderbyn, cadarnheir dyddiad yr adolygiad annibynnol a bydd y ganolfan yn cael gwybod pa dystiolaeth sydd i'w chyflwyno i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad annibynnol. Os nad yw'n cael ei dderbyn, hysbysir yr ysgol neu'r coleg o'r rheswm (rhesymau). Os na dderbynnir apêl gellir cyflwyno cais newydd sy'n bodloni'r gofynion ar yr amod ei fod yn cyrraedd o fewn y terfyn amser.
8. Anelwn at gwblhau'r adolygiad annibynnol o fewn 42 diwrnod calendr i dderbyn y cais. Bydd y llythyr yn nodi'r canlyniad yn cynnwys rhesymau dros wneud y penderfyniad.
9. Yr adolygiad annibynnol yw cam olaf proses apelio CBAC. Hysbysir yr ysgol/coleg o broses apelïadau Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholïadau (EPRS) y rheoleiddiwr priodol.

Os nodir bod gwall wedi bod ar unrhyw gam o'r broses apeliadau, bydd CBAC yn gweithredu i gywiro/lliniaru unrhyw wallau.

iii) Rhesymau dros yr apêl

Gellir cyflwyno cais am apêl am un neu fwy o'r rhesymau canlynol:

Gwall gan yr ysgol neu'r coleg

- Gwnaed gwall gan yr ysgol neu'r coleg yn y graddau asesu canolfannau a gyflwynwyd.

Gwall CBAC wrth gyfrifo neu gyhoeddi canlyniadau

- Defnyddiodd CBAC ddata anghywir e.e. ni ddefnyddiodd y radd asesu canolfannau a ddarparwyd.
- Cyflwynodd CBAC wall i'r data asesu canolfannau a gyflwynwyd.
- Gwnaeth CBAC wall gweinyddol wrth gyhoeddi canlyniad.

Rhesymau dros weithredu

- Ni wnaeth CBAC gymhwyso ei weithdrefnau safoni neu apeliadau'n gyson, neu ni ddilynwyd y gweithdrefnau'n gywir ac yn deg.

DS Gofynnir i ysgolion a cholegau gadarnhau nad oes unrhyw wallau yn y data gan y ganolfan cyn cyflwyno apêl am resymau eraill.

Bydd apêl ar sail gwall canolfan, gwall data CBAC yn cynnwys adolygiad o'r gweithdrefnau.

Ni ellir apelio oherwydd y rhesymau canlynol:

- dysgwr yn anghytuno â'i radd asesu canolfannau a/neu safle ar y drefn restrol (gweler nodyn ¹)
- dyfarniadau proffesiynol wedi'u hailystyried neu wedi'u hadolygu

Nodyn 1. Gofynnwyd i ganolfannau ddefnyddio'u harbenigedd proffesiynol i farnu'n deg ac yn oddrychol, gan ddefnyddio amrediad o dystiolaeth, y graddau y credent y byddai dysgwr wedi'u hennill pe byddai wedi sefyll ei arholiadau yn yr haf. Gall hyn fod yn wahanol i radd 'targed' neu radd 'wedi'i rhagfynegi' a roddwyd i ddysgwyr yn flaenorol i'w cymell i gyflawni eu potensial gorau. Mae'n hysbys bod graddau targed neu wedi'u rhagfynegi yn aml yn uwch na'r graddau a enillir gan ddysgwyr. Os oes dystiolaeth gredadwy gan ddysgwr nad oedd gradd yn seiliedig ar ddyfarniadau gwrthrychol ond ar ffactorau cwbl amherthnasol neu oddrychol eraill yn arwain at duedd neu wahaniaethu, dylent godi'r mater hwn fel cwyn neu apêl fewnol â'u canolfan.

Gall honiad o duedd, gwahaniaethu neu fethiant i ystyried addasiadau rhesymol, y mae dystiolaeth gredadwy ar gael i'w cefnogi, gael ei gyflwyno i CBAC a'i ymchwilio fel achos o gamymddwyn. Mae canllawiau pellach ar wrthrychedd wrth raddio a rhestru i'w gweld [yma](#).

iv) Cyflwyno cais am apêl a chydsyniad dysgwr

TGAU, UG, Safon Uwch, Project Estynedig a Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

Dim ond ceisiadau a dderbynnir gan ysgolion neu golegau ar ran eu dysgwyr a dderbynnir: ni all dysgwyr unigol gyflwyno cais (gweler atodiad 2 am wybodaeth am ymgeiswyr preifat yng Nghymru). Rhaid i bennaeth y ganolfan awdurdodi'r cais.

Efallai yr hoffai ysgolion a cholegau bennu terfyn amser mewnol ar gyfer derbyn ceisiadau am apelïadau mewn da bryd cyn terfyn amser CBAC.

Nid oes angen caniatâd y dysgwr a chaiff y graddau eu diogelu.

Tystysgrifau a Diplomâu Cyffredinol Cymhwysol, Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio, Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol, Lefel Mynediad, Llwybrau Mynediad, Llwybrau Ieithoedd, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (Cymru), Iaith ar Waith, Cymraeg Gwaith, Lefel 1/2 Cyffredinol Lladin a Mathemateg Ychwanegol.

Mae'r trefniadau apelio yn wahanol ar gyfer y cymwysterau hyn gan fod fframweithiau anghyffredin rheoleiddiol gwahanol:

- **Does dim amddiffyniad ar raddau unrhyw ddysgwr.** Os nodir gwall yn ystod y broses apelio gall canlyniadau dysgwyr yn y garfan fynd i fyny, i lawr neu aros yr un fath, hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi gofyn am gael cyflwyno apêl ar eu rhan.

v) Gwybodaeth a thystiolaeth sy'n ofynnol i gefnogi apêl

Rhesymau dros apêl	Gwybodaeth a thystiolaeth arall i'w cyflwyno i CBAC
Gwall gan yr ysgol neu'r coleg	Rhaid darparu'r holl wybodaeth a thystiolaeth ynghyd â'r cais am apêl. • Esboniad manwl yn nodi pam yr ystyrir bod data y datganwyd eu bod yn gywir gan bennaeth y ganolfan erbyn hyn yn anghywir. • Dogfennau'n dangos tystiolaeth bod y ganolfan wedi dilyn y broses gywir a bod dau o bobl wedi llofnodi'r graddau a'r wybodaeth am drefn restrol cyn llofnodi datganiad pennaeth y ganolfan. • Tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi'i ymrestru ar y cwrs ac y byddai wedi sefyll yr arholiad eleni pe na byddai'r arholiadau wedi'u canslo (cofrestriadau hwyr yn unig) • Y graddau asesu canolfannau a gwybodaeth am drefn restrol wedi'u cywiro, gan gynnwys cadarnhad gan Bennaeth y Ganolfan yn nodi bod y wybodaeth yn gywir • Cadarnhad bod gwiriadau sicrhau ansawdd ychwanegol wedi'u cynnal ar y graddau a'r wybodaeth am drefn restrol a gyflwynwyd gan y ganolfan ac nad oes unrhyw wall arall yn bodoli.

Data anghywir wedi'u defnyddio gan CBAC <i>Gofynnir i ganolfannau edrych am wallau o du'r ganolfan cyn cyflwyno apêl am y rhesymau hyn.</i>	Dylai'r ysgol/coleg nodi'r wybodaeth sy'n anghywir yn ei farn ef a chyflwyno'r hyn y mae'n ystyried yw'r wybodaeth gywir. Byddai data anghywir yn cynnwys: y radd asesu canolfannau a gyflwynwyd gan y ganolfan yn wahanol i'r wybodaeth a ddefnyddiodd CBAC
Rhesymau dros weithredu	Dylai'r ysgol/coleg nodi ymhle mae'n credu na ddefnyddiodd CBAC y model safoni cywir

vi) Ffioedd

Mae gwybodaeth i'w gweld ar ein gwefan.

5. Cyfresi arholiadau'r dyfodol

Bydd cyfle i ddysgwyr sefyll arholiadau yng nghyfresi'r dyfodol.

Yn ychwanegol at y gyfres TGAU Tachwedd arferol ar gyfer Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg – Rhifedd, bydd cyfle i sefyll arholiadau ac asesiadau eraill yn Hydref/Tachwedd ar gyfer ein manylebau CBAC Eduqas TAG a TGAU, Project Estynedig a Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol. Bydd cyfle i sefyll arholiadau ac asesiadau yng nghyfres Ionawr 2021 ar gyfer ein cymwysterau Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol a chymwysterau galwedigaethol eraill. Dylech gyfeirio at ein gwefan am fanylion pellach.

Terfynau amser cyflwyno cofrestriadau ar gyfer arholiadau i'w cynnal ym mis Hydref/Tachwedd yw:

Eduqas UG, Safon Uwch, Project Estynedig a

Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol:

4 Medi 2020

Eduqas TGAU, heblaw Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg – Rhifedd a Cymraeg Iaith

18 Medi 2020

CBAC TGAU Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg – Rhifedd a Cymraeg Iaith

4 Hydref 2020

OS NA DDERBYNNIR UNRHYW GOFRESTRIAD AM GYMHWYSTER NEU UNED ERBYN Y TERFYN AMSER COFRESTRU, NI FYDD Y GWAITH O BARATOI'R PAPUR ARHOLIAD YN MYND YN EI FLAEN A BYDD YR ARHOLIAD YN CAEL EI GANSLO.

Atodiad 1: Esbonio Graddau

Dyfernir gradd gyffredinol am y cymhwyster i ddysgwyr Ni chyhoeddir unrhyw ffiniau graddau yn haf 2020.

Ni ddyfernir unrhyw raddau ar gyfer unedau yn y cymwysterau unedol, heblaw am Lefel 1/2 Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol.

UG a Safon Uwch

Cymhwyster	Graddau Cymhwyster
TAG (Safon Uwch) Gradd Unigol	A* - E (gyda'r radd uchaf yn A*)
TAG (Safon Uwch) Dwyradd	A*A*, A*A, AA, AB, BB, BC, CC, CD, DD, DE, EE (gyda'r radd uchaf yn A*A*)
TAG (UG) Gradd Unigol	A - E (gyda'r radd uchaf yn A)
TAG (UG) Dwyradd	AA, AB, BB, BC, CC, CD, DD, DE, EE (gyda'r radd uchaf yn AA)

TGAU

Cymhwyster	Graddau Cymhwyster
Manylebau TGAU Eduqas, wedi'u rheoleiddio gan Ofqual. Gradd Unigol.	9-1 (gyda'r radd uchaf yn 9)
Manylebau TGAU Eduqas, wedi'u rheoleiddio gan Ofqual. Dwyradd.	9-9 to 1-1 (gyda'r radd uchaf yn 9-9)
Manylebau TGAU CBAC, wedi'u rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru. Gradd Unigol	A* - G (gyda'r radd uchaf yn A)
Manylebau TGAU CBAC, wedi'u rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru. Dwyradd	A*A*, A*A, AA, AB, BB, BC, CC, CD, DD, DE, EE (gyda'r radd uchaf yn A*A*)

Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol

Cymhwyster	Graddau Cymhwyster
Tystysgrif mewn Busnes	A-E
Tystysgrif mewn Troseddeg	A-E
Tystysgrif mewn Gwyddor Bwyd a Maeth	P/M/D/D*
Tystysgrif mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	A-E
Tystysgrif mewn Gwyddor Feddygol	A-E
Tystysgrif mewn Mathemateg ar gyfer Bywyd a Gwaith	A-E

Tystysgrif mewn Datrys Problemau Ystadegol gan Ddefnyddio Meddalwedd	Llwyddiant/Teilyngdod/Rhagoriaeth/Rhagoriaeth*
Tystysgrif mewn Twristiaeth	A-E
Diploma mewn Busnes	A*-E
Diploma mewn Troseddeg	A*-E
Diploma mewn Gwyddor yr Amgylchedd	Llwyddiant/Teilyngdod/Rhagoriaeth/Rhagoriaeth*
Diploma mewn Gwyddor Bwyd a Maeth	Llwyddiant/Teilyngdod/Rhagoriaeth/Rhagoriaeth*
Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	A*-E
Diploma mewn Gwyddor Feddygol	A*-E
Diploma mewn Arfer Adeiladu Proffesiynol	A*-E
Diploma mewn Twristiaeth	A*-E
Diploma Estynedig mewn Gwyddor yr Amgylchedd	Llwyddiant/Teilyngdod/Rhagoriaeth/Rhagoriaeth*

Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol

Cymhwyster	Graddau Cymhwyster
Dyfarniadau a Thystysgrifau	Lefel 1 Llwyddiant, Lefel 2 Llwyddiant, Lefel 2 Teilyngdod, Lefel 2 Rhagoriaeth, Lefel 2 Rhagoriaeth*

Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Cymru)

Cymhwyster	Gradd y cymhwyster
Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau	Llwyddiant, Teilyngdod, Rhagoriaeth

Project Estynedig

Cymhwyster	Graddau Cymhwyster
Project Estynedig	A*- E (gyda'r radd uchaf yn A*)

Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio

Cymhwyster	Graddau Cymhwyster
------------	--------------------

Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio	Llwyddiant, Teilyngdod, Rhagoriaeth
-------------------------------------	-------------------------------------

Lefel Mynediad

Cymhwyster	Graddau Cymhwyster
Lefel Mynediad	Mynediad 1, Mynediad 2, Mynediad 3 (Mynediad 3 yw'r radd uchaf)

Llwybrau Mynediad a Llwybrau Ieithoedd

Cymhwyster	Graddau Cymhwyster
Llwybrau	Llwyddo

Bagloriaeth Cymru

Lefel	Sgiliau Her Tystysgrif	Cymwysterau Ategol (Rhaid cyflawni A a B)	
		A (Cyflawnwyd yn Ystod neu Cyn Ymrestru)	B (Cyflawnwyd yn ystod Ymrestru)
CA4 Sylfaen	Llwyddiant neu Llwyddiant*	TGAU Saesneg Iaith <i>neu</i> TGAU Cymraeg Iaith ar radd A* - G A TGAU Mathemateg – Rhifedd <i>neu</i> TGAU Mathemateg ar radd A* - G	O leiaf tri chymhwyster TGAU arall ar radd A*-G, y gall dau ohonynt fod yn gymwysterau cyfwerth
CA4 Cenedlaethol	A* - C	TGAU Saesneg Iaith <i>neu</i> TGAU Cymraeg Iaith ar radd A* - C A TGAU Mathemateg – Rhifedd <i>neu</i> TGAU Mathemateg ar radd A* - C	O leiaf tri chymhwyster TGAU arall gradd A*-C, y gall dau ohonynt fod yn gymwysterau cyfwerth
Ôl 16 Sylfaen	Llwyddiant neu Llwyddiant*	TGAU Saesneg Iaith <i>neu</i> TGAU Cymraeg Iaith ar radd A* - G <i>neu</i> Sgil Cyfathrebu Hanfodol ar Lefel 1 (L1) neu uwch A TGAU Mathemateg – Rhifedd <i>neu</i> TGAU Mathemateg gradd A* - G <i>neu</i> Sgil Cymhwyso Rhif Hanfodol Lefel 1 (L1) neu uwch	Uchafswm o bedwar cymhwyster Lefel 1 (L1) gyda chyfanswm o 300 ODA o leiaf
Ôl 16 Cenedlaethol	A* - C	TGAU Saesneg Iaith <i>neu</i> TGAU Cymraeg Iaith ar radd A* - C <i>neu</i> Sgil Cyfathrebu Hanfodol ar L2 neu uwch A TGAU Mathemateg – Rhifedd <i>neu</i>	Uchafswm o bedwar cymhwyster Lefel 2 (L2) gyda chyfanswm o 300 ODA o leiaf.

		TGAU Mathemateg ar radd A* - C <i>neu</i> Sgil Cymhwyso Rhif Hanfodol ar Lefel 2 (L2) neu uwch	
Uwch	A* - E	TGAU Saesneg Iaith <i>neu</i> TGAU Cymraeg Iaith ar radd A* - C A TGAU Mathemateg – Rhifedd <i>neu</i> TGAU Mathemateg ar radd A* - C	Dau gymhwyster Safon Uwch ar radd A* - E; Neu Un cymhwyster Safon Uwch ar radd A* - E a Llwyddiant ar un cymhwyster galwedigaethol lefel 3 gyda chfanswm o 300 ODA o leiaf; Neu Llwyddiant ar un neu ddau gymhwyster galwedigaethol Lefel 3 (L3) gyda chfanswm o 600 ODA o leiaf.

Bydd dysgwyr y mae lefel eu cyrhaeddiad islaw'r safon leiaf yn derbyn canlyniad (U) annosbarthedig fydd ddim yn ymddangos ar dystysgrifau.

Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau

Yn ogystal â graddau, gall slipiau canlyniadau gynnwys symbolau eraill:

mae **X** yn dangos y penderfynwyd peidio â chyhoeddi canlyniad. Ni fydd unrhyw bwnc ag (X) yn ymddangos ar y dystysgrif.

Mae **Q** yn dangos bod canlyniad i ddod ar gyfer y cymhwyster neu ddim ar gael ar hyn o bryd.

mae **q** yn dangos bod gradd uned i ddod. Casglwyd graddau o'r ysgolion a'r colegau mewn perthynas â'r pwnc yn gyffredinol yn unig. Ni fyddwch chi felly'n derbyn gradd am unrhyw unedau heblaw Lefel 1/Lefel 2 Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol. Cyhoeddir canlyniadau'r unedau hyn yn ddiweddarach.

Atodiad 2: Ymgeiswyr preifat

Mae'r trefniadau ar gyfer dysgwyr preifat yn amrywio rhwng y mathau gwahanol o gymhwyster.

CBAC Eduqas TGAU, UG, Safon Uwch a CBAC Project Estynedig

Yr ysgol neu'r coleg cofrestru ddylai gyflwyno ceisiadau am apeliadau

CBAC TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

Cynghorir dysgwyr preifat i gysylltu â'r ysgol neu'r coleg cofrestru am gyngor yn y lle cyntaf. Gall dysgwyr preifat nad oedd modd cyflwyno gradd asesu canolfannau ar eu rhan ac y cyfrifwyd eu canlyniadau gan CBAC apelio'n uniongyrchol i ni drwy anfon e-bost at apeliadau@cbac.co.uk.